# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**STD(3) 03-07 (p2): Dydd Mercher 21 Tachwedd 2007**

## Cod y Gweinidogion

### Cefndir

1. Drwy gydol y Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad, roedd cylch gwaith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnwys ystyried cwynion a gyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd Safonau ynghylch achosion posibl o dorri Cod y Gweinidogion. Sefydlwyd y cylch gwaith yn Rheol Sefydlog 16.

2. Yn y Trydydd Cynulliad, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn cynnwys y ddarpariaeth hon ac, felly, ni all y Comisiynydd Safonau na'r Pwyllgor ystyried cwynion am achosion posibl o dorri Cod y Gweinidogion.

3. Nid yw Cod y Gweinidogion yn cynnwys elfen sy'n galluogi i achosion posibl o dorri'r Cod gael eu hystyried yn annibynnol, tebyg i'r drefn ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.  Yn ymarferol, gellid cyflwyno cwyn yn erbyn ymddygiad Gweinidog gerbron y Prif Weinidog, ond nid yw'n bosibl cyflwyno'r gŵyn gerbron person annibynnol, na chael person annibynnol i ymchwilio i gŵyn.

4. Mae Cod Gweinidogion Llywodraeth y DU yn cynnwys darpariaeth i gyfeirio cwyn ynghylch torri Cod y Gweinidogion at y Cynghorydd Annibynnol ar Fuddiannau Gweinidogion.  Cyhoeddwyd y Cod newydd hwn ym mis Gorffennaf eleni, ac mae'n dilyn adroddiad diweddar gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus ar 'The Ministerial Code: a case for independent investigation'.

5. Mae'n bwysig nodi na all y Pwyllgor na'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd fynnu bod newidiadau'n cael eu gwneud i God y Gweinidogion, ac y byddai'n rhaid i unrhyw argymhelliad i'w newid gael ei gyflwyno gerbron y Prif Weinidog i'w gynnwys yn y Cod.

### Argymhellion

6. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod y mater o gwynion a wnaed yn erbyn Aelod Cynulliad o dan God y Gweinidogion, ac a fyddai'r pwyllgor yn dymuno ymgymryd â rhagor o waith ar y mater er mwyn gwneud argymhelliad.

**Sulafa Halstead**
**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**